

Llwybr Sain Mwynwyr Gwydir

Croeso i Llwybr Sain Mwynwyr Gwydir, sy'n cychwyn ym maes parcio Hafna ger Betws-y-Coed.

1. Cyflwyniad a Mwynglawdd Hafna

Miners yng ngwaith plwm Gwydir oedd fy nhad, fy nhaid o'i flaen, a fy hen daid cyn hynny. Felly dilyn ôl i troed nhw o'n i pan wnes i ddechra yn y Parc Mine.

Gan mlynedd yn ôl, roedd y gwaith plwm yn bwysig iawn yn yr ardal. Roedd llawer o'r rhai oedd yn gweithio fel miners yn cadw tyddyn bach hefyd, neu helpu ar ffermydd o gwmpas, er mwyn cadw'r blaidd o'r drws.

Nid dim ond y mines mawr fel Hafna oedd gynnoch chi – mae yna dyllau, shafts a ffosydd o gwmpas yn bob man – lle'r oedd dau neu dri o bobl yn trio'u lwc! Mi fuo rhai yn lwcus – cafodd Cobbler's Lode, wrth ymyl gwaith y Parc ei enwi ar ôl cryddion a oedd wedi taro ar vein gyfoethog o blwm a gwneud eu ffortiwn. Ychydig iawn oedd yn llwyddo fel hyn, gan fod y rhan fwy o'r veins yn denau ac yn anodd cael atyn nhw.

Roedd y bobl oedd biau'r mines yn yn trio pob tric i gael pobl i investio. Roedd rhai heb ddigon o brofiad i wybod sut i redeg mine yn iawn – ac mi roedd rhai eraill yn anonest, yn camarwain pobl am y potential i wneud pres ac yn eu twyllo! Mae Hafna, yn fama, yn typical o'r mines o oes Victoria – buildings crand ond fawr ddim byd arall!

Doedd fy nhad ddim isio imi fynd i weithio i'r mines gan fod y cyflog mor anwadal. Roedd y mines yn newid dwylo'n aml, a llawer o'r meistri'n mynd yn bankrupt, a'r dynion ar y clwt wedyn. Ond roedd yna barch mawr at rai o'r miners caled, a'r hogia ifanc bob amser isio cael bod yn un ohonyn nhw.

2. Mwynglawdd y Parc (panel wyneb)

Gwaith plwm y Parc oedd y mine dwytha i weithio yn Gwydir, cyn iddi gau yn y 1960s. Roedd llawer yn trio am y jobs yn y mine, ac mi roedd 'na hwyl dda yno. Dim ond am flwyddyn at y diwedd y buo fi yno, ond hon oedd y job ora' imi erioed 'i chael. Roedd y rhan fwya o'r gweithiwrws o'r ardal, felly mi fydda yna ddwy lorri Leyland Comet yn ein pigo ni i fyny o Bont Llanrwst – tra bod y bosus yn dod yma mewn Land Rover efo'u dreifars eu hunain! Roedd cau'r mine yn dipyn o glec i'r dre.

Pan oedd o'n bymtheg oed yn 1956, mi wnaeth fy ffrind Albert ddechrau gweithio efo'r Black Gang, yn llwytho'r ores plwm a zinc i loris. Roedd o'n ennill saith bunt yr wythnos, a bonus bob mis. Roedd y gang bob amser yn ddu – gan fod yr ore du yn sblashio arnyn nhw. Doedd gynnoch chi ddim masks na protective clothing yn y dyddiau hynny! Pan ddechreuodd o, mi wnaeth y hogia eraill chwarae tric arno fo, fel y byddan nhw'n gwneud bob tro i hogyn newydd. Wrth iddo fo ddechrau sheflo, dyna nhw'n dweud wrtho fo am wneud yn siwr ei fod yn llenwi ei raw. Ond wrth gwrs doedd o prin yn medru symud llond rhaw o blwm!

Pan oedd yn 17 oed, aeth o dan y ddaear i glirio'r rwbwl o'r rêls ar ôl tanio, efo miner profiadol yn cadw llygad arno fo. Job hogyn ifanc arall oedd hel a llenwi flasks te y miners. Roedd hogia ifanc yn gobeithio gweithio'u ffordd i fyny i ddod yn timberman neu'n driliwr. Roedd pawb isio mynd o dan y ddaear gan fod y tâl yn well a dyna lle'r oedd rhywun yn teimlo fel 'dyn go-iawn'.

3. Mwynglawdd y Parc (panel dan ddaear)

Welder o'n i, felly ro'n i'n gweithio ym mhob rhan o'r mine, lle bynnag oedd fy angen i. Ro'n i'n rhyfeddu pa mor bell oedd y twneli'n mynd. Roedd yr hira' bron yn ddwy filltir – yn cyrraedd heb fod yn bell o Tŷ Hyll! Doedd hi ddim yn oer o dan y ddaear – ond roedd hi'n wlyb, a sŵn dŵr yn dripio trwy'r amser.

Roedd y miners profiadol yn medru 'darllen' y graig. Wna i byth anghofio John Froggatt, un o'r managers. Dyn distaw oedd o, ond doedd neb yn 'nabod y graig fel fo. Un tro, mi ges i 'ngalw i drwsio peipen aer a oedd wedi torri ar ôl blast. Roeddan ni newydd drwsio'r beipen pan gyrhaeddodd John Froggatt a dweud wrthon ni am symud o'no ar unwaith. "Pasia'r bar i fi" meddai, gan bwysu'r bar yn ysgafn yn erbyn un graig, a gwneud i dunnell o leia' o graig syrthio! Roeddan ni wedi bod yn gweithio yno heb weld bod y graig yn rhydd – ond ond roedd o'n medru dweud yn syth!

Y drillers oedd yn cael y cyflog gorau, ac roedden nhw hefyd yn cael bonus – i fyny at ganpunt y mis ar ben eu cyflog. Pres mawr yn 1963! Roedd o'n waith peryg. Roedden nhw'n aml yn gweithio'n uchel i fyny yn balansio ar blancia tenau o bren wedi eu gosod ar pegs metal wedi eu drilio i'r graig. Mi wnaeth y driller Karl Huzarski unwaith syrthio 300 troedfedd heb dorri dim un asgwrn – dim ond colli dau ddant. Roedd y bobl yma'n ddynion caled!

Roedden ni'n leicio canu wrth inni gerdded ar hyd y twnel. Roedd yr acoustics o dan ddaear yn superb. Dw i'n cofio un mine captain o dde Cymru'n dweud: "I love to hear them singing at the end of shifts – it's bloody beautiful!"

4. Mwynglawdd Dyffryn Conwy

Roedd hogia ifanc yn gweithio'r buddles ar yr wyneb yn gwahanu'r ore odd'wrth y graig wast. Math o fwrdd conical yn slôpio ydi buddle lle'r oedd y graig a'r ore yn cael eu golchi. Mi fedrwch chi ddal i weld y buddle pit crwn lle'r oeddau nhw'n gweithio.

Roedden nhw'n cerdded i fyny o Lanrwst neu Betws-y-coed bob bore, ac wedyn yn gweithio allan drwy'r dydd, drwy bob tywydd.

Job nhw oedd llenwi'r buddle. Pan fyddai bwrdd y buddle yn llawn, mi fyddan nhw'n gorfod symud yr ore o ran uchaf y bwrdd a'r wast o ran isaf y bwrdd. Mi fyddan nhw sheflo drwy'r dydd!

I wneud pethau'n waeth, roedd y vein plwm yn denau iawn, felly craig wast oedd y rhan fwyaf o'r stwff a oedd yn mynd trwy'r buddle. Roedd yr hogia'n gorfod symud yr holl wast mewn berfa a'i roi ar y tomenni rwbel. Mi fyddai'r ore yn cael ei roi mewn casgenni, a ceffyl a throl yn dwad heibio unwaith neu ddwy yr wythnos i fynd â nhw i'r cei yn Trefriw i'w cario nhw i'r ffwrneisi smeltio. Lot o waith am ychydig bach o blwm!

Roedd hyn yn waith caled iawn, ac roedd y cyflog yn sâl ofnadwy. Yn yr 1860s, dim ond pedwar swllt yr wythnos oedd yr hogia ifanc yn ennill, a'r miners profiadol yn cael tair gwaith hynny. Ar ôl iddyn nhw gael profiad, roedden nhw'n medru cael gwaith dan ddaear. Dyna oedd breuddwyd pob hogyn ifanc. Roedd o'n talu'n well, ac yn waith llawer cynhesach yn y gaeaf!